**RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Joan Butterfield, ar ran y Grŵp Llafur, y Rhybudd o Gynnig canlynol ar gyfer sylw'r Cyngor Llawn:

Bod Cyngor Sir Ddinbych yn:

Ysgrifennu at holl ddarparwyr Gofal Cymdeithasol sector preifat y sir, yn nodi y dylent adolygu eu polisïau absenoldeb salwch, fel y byddant o leiaf yn talu'r un ddarpariaeth salwch â mae staff Awdurdodau Lleol yn dderbyn, gan gynnwys tâl llawn i staff sydd ar absenoldeb salwch oherwydd coronafeirws.

Bydd hyn yn helpu i gyfrannu'n llawn tuag at ymladd y feirws peryglus hwn.